## Swydd ddisgrifiad

| | |
|---|---|
| **Teitl Swydd:** | **Cynorthwyydd Cyfathrebu a Phrosiectau (Interniaeth â Thâl)** |
| **Oriau a Lleoliad:** | Hyd at 21 awr yr wythnos. Caerdydd a gweithio o gartref. |
| **Graddfa Gyflog:** | Cyflog Byw Gwirioneddol (£13.45 yr awr) |
| **Math o Gytundeb:** | Cytundeb Tymor Penodol 6 mis (gyda phosibilrwydd o ymestyn i 12 mis) |
| **Cyfnod Prawf:** | 2 fis |
| **Yn Atebol i:** | Swyddog Prosiectau Digidol |

**Gwyliau a Buddiannau:**

- Hyd at 25 diwrnod o wyliau'r flwyddyn, yn codi i 27 ar ôl 2 flynedd ac i 30 ar ôl 5 mlynedd (pro-rata)
- Gwyliau Banc
- Hyd at 4 wythnos o weithio i ffwrdd o dy leoliad gwaith yng Nghymru (pro-rata)
- Cynllun pensiwn - cyfraniad cyflogwr o hyd at 6% (yn ddibynnol ar oedran)
- Lwfans Rhyngrwyd/Ffôn Symudol misol £30
- Lwfans Cyfarfodydd/Digwyddiadau £50 (pro-rata)
- Cynllun beicio i'r gwaith (www.cyclescheme.co.uk)
- Yswiriant marwolaeth mewn swydd
- Apwyntiadau Meddygol â Thâl
- Rhaglen Cymorth i Weithwyr

## Gwybodaeth am Promo Cymru

**Ein Gweledigaeth:** Newid creadigol er budd cymdeithasol
**Ein Cenhadaeth**: Gwireddu newid wrth Gyfathrebu, Cynllunio, Adeiladu gyda phobl ifanc a chymunedau

## Ein ffordd o weithio

Mae ProMo Cymru yn gweithio ar y cyd i greu cysylltiadau rhwng pobl a gwasanaethau gan ddefnyddio creadigrwydd a thechnoleg ddigidol. Yn cefnogi'r trydydd sector a'r sector cyhoeddus i ddychmygu, profi a chreu gwasanaethau gwell.

Rydym yn gweithio â chymunedau trwy ddigidol a chynhyrchu cyfryngau, cyfathrebu, eiriolaeth, ac ymgysylltiad diwylliannol. Mae dros 25 mlynedd o gyflawni gwybodaeth ieuenctid digidol yn llywio ein gwaith. Mae'r wybodaeth yma yn cael ei rannu drwy hyfforddiant ac ymgynghoriaeth, gan sefydlu partneriaethau hirdymor er budd pobl a gwasanaethau.

Mae ProMo yn elusen gofrestredig ac yn fenter gymdeithasol, rydym yn buddsoddi ein helw yn ôl i'n prosiectau cymunedol.

**Darganfod mwy am ProMo Cymru ar** www.promo.cymru

## Prif bwrpas y swydd

Mae ein Tîm Cyfathrebu, Ymgysylltu a Digidol yn chwilio am Gynorthwyydd Cyfathrebu a Phrosiectau brwdfrydig, trefnus ac sy'n gallu ysgogi ei hun. Bydd gan y person yma ddiddordeb mewn prosiectau sydd yn cefnogi pobl ifanc a chymunedau i ddylanwadu ar newid.

Byddi di'n rhan o brosiectau sydd yn canolbwyntio ar iechyd meddwl, llythrennedd digidol, gwybodaeth, ac ymgyrchoedd pobl ifanc, a disgwylir i ti weithio ar draws sawl prosiect ar yr un pryd.

Dyma gyfle gwych i dderbyn arweiniad arbenigol ac ennill profiad i roi hwb i dy yrfa.

**I weld y math o waith sy'n cael ei gyflawni:** www.promo.cymru/cy/projects/

## Prif ddyletswyddau

- Cefnogi ein tîm i gyflawni prosiectau a gweithgareddau
- Cefnogi gyda chynllunio, cydlynu, a chyflwyno gweithdai, cyfarfodydd, digwyddiadau, a gweithgareddau ymgysylltu gyda phobl ifanc, cymunedau a sefydliadau partner

- Cynorthwyo gyda threfnu cyfarfodydd, paratoi agendâu, cymryd nodiadau, a dilyn camau gweithredu
- Cynorthwyo gyda chreu cynnwys digidol ar gyfer cyfryngau cymdeithasol, cylchlythyrau, gwefannau, a deunyddiau hyrwyddo
- Cyfrannu syniadau a dulliau creadigol i wella cyfathrebu, ymgysylltiad, a chyflawni prosiectau
- Cynrychioli ProMo Cymru yn bositif wrth weithio gyda phobl ifanc, cymunedau, partneriaid, a sefydliadau allanol

*Bydd disgwyl i'r person yn y swydd gyflawni unrhyw ddyletswyddau eraill sydd yn ofynnol i sicrhau bod prosiectau yn cyflawni ei gyraeddiadau a'i amcanion yn llwyddiannus.*

## Amdanat ti

**Byddem wrth ein bodd yn clywed gen ti os:**

- Mae gen ti ddiddordeb yn gweithio gyda phobl ifanc a chymunedau, ac i gefnogi lleisiau fel eu bod yn cael eu clywed
- Mae gen ti ddiddordeb mewn cyfathrebu, cyfryngau digidol, ymgysylltiad, neu waith prosiect
- Rwyt ti'n drefnus, yn greadigol, ac yn gallu ymdopi gyda sawl tasg ar yr un pryd
- Rwyt ti'n hyderus yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol, adnoddau digidol, a llwyfannau ar-lein
- Rwyt ti'n mwynhau gweithio ar y cyd fel rhan o dîm ond hefyd yn gallu gweithio yn annibynnol
- Rwyt ti'n gyffroes i weithio mewn amgylchedd ble nad yw'r un ddau ddiwrnod yr un peth
- Rwyt ti wedi ymrwymo i ddysgu a datblygu dy sgiliau wrth ennill profiad yn un o'r mentrau cymdeithasol sy'n tyfu cyflymaf yng Nghymru
- Byddai profiad mewn cefnogi prosiect, creu cynnwys, hwyluso, neu ymgysylltiad ieuenctid yn fantais, ond nid yw'n hanfodol

**Sut i wneud cais:** E-bostia dy ffurflen gais wedi'i lenwi i **pobl@promo.cymru**

**Dyddiad cau:** Dydd Gwener, 17 Gorffennaf 2026, 5yh

**Cyfweliadau:** Dydd Mawrth, 4 Awst a dydd Mercher, 5 Awst 2026 yn ein swyddfa yng Nghaerdydd.

**Manylion pellach am ProMo Cymru ar** www.promo.cymru/cy/

## Manyleb a phrofiad person:

| Gofyniad | Hanfodol | Dymunol | Sut mae adnabod/ asesu |
|---|---|---|---|
| **Addysg/ Cymwysterau:** | | Cymhwyster (neu'n gweithio tuag at gymhwyster) neu brofiad mewn pwnc perthnasol fel cyfathrebu, gwaith ieuenctid, gwyddorau cymdeithasol, cyfryngau digidol, neu faes perthnasol. | Ffurflen gais |
| **Sgiliau/ Gwybodaeth:** | Hyderus yn defnyddio adnoddau digidol, llwyfannau ar-lein, a chyfryngau cymdeithasol.<br><br>Ymrwymiad i ymarfer cynhwysol, cydraddoldeb, amrywiaeth a diogelu.<br><br>Sgiliau trefnu, cynllunio ac amldasgio cryf.<br><br>Sgiliau meddwl creadigol a datrys problemau cryf. | Dealltwriaeth o sut i ddylunio deunyddiau marchnata ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd targed.<br><br>Gwybodaeth neu ddealltwriaeth i ddulliau cyd-gynhyrchu, cyfranogi, neu ddulliau dylunio sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr. | Ffurflen gais a chyfweliad |
| **Nodweddion personol:** | Sgiliau cyfathrebu a rhyngbersonol da ar lafar ac yn ysgrifenedig.<br><br>Angerddol am ymgysylltu â phobl ifanc a chymunedau yng Nghymru.<br><br>Y gallu i weithio'n annibynnol ac ar liwt dy hun, yn ogystal â bod yn rhan o dîm<br><br>Yn sylwi ar y manylion bach, yn gallu rheoli dy amser a gyda sgiliau cynllunio gwych. | | Cyfweliad |
| **Gofynion eraill:** | Wedi ymrwymo i weithio i, a chynnal gwerthoedd, ethos a diwylliant ProMo Cymru. | Trwydded yrru gyda thrafnidiaeth dy hun. | Ffurflen gais a chyfweliad |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Parodrwydd i deithio ar draws Cymru pan fo angen.<br><br>Parodrwydd i weithio oriau hyblyg yn achlysurol.<br><br>Bydd angen gwiriad DBS uwch ar gyfer y swydd yma. | Siarad Cymraeg. | |

Gall y disgrifiad swydd yma gael ei adolygu a'i newid i gynnwys dyletswyddau a chyfrifoldebau a bennir mewn ymgynghoriad â deiliad y swydd. Ni fwriedir iddo fod yn anhyblyg, ond dylid ei ystyried fel darparu fframwaith y mae'r unigolyn yn gweithio iddo.

### DIWEDD ###